04.11.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Heledd Cynwal yn ymuno â chriw cyflwyno Gŵyl Gerdd Dant

Am y tro cyntaf ers 2019, mae'r Ŵyl Gerdd Dant yn ôl! A'r tro yma, a'r drydedd tro yn ei hanes, mae'r ŵyl yn cael ei gynnal yn Sir Drefaldwyn.

Bydd **Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi** yn cael ei chroesawu i Theatr Llwyn, Ysgol Llanfyllin ar ddydd Sadwrn 12 Tachwedd. Bydd S4C yn darlledu'r holl gystadlu - o'r corau i'r clocsio, yr unawdau i'r offerynwyr a llawer iawn mwy brynhawn Sadwrn o 3.00 y prynhawn a gydol y nos o 7.15.

Roedd yr ŵyl yn wreiddiol i fod wedi'i chynnal yn 2020, ond bu'n rhaid gohirio oherwydd y pandemig.

Enw swyddogol gŵyl eleni yw Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi, a hynny er cof am y delynores enwog Nansi Richards o Benybont Fawr a gyfrannodd gymaint i ddiwylliant yr ardal a Chymru gyfan. Roedd Nansi yn dipyn o gymeriad ac yn enwog am ddiddanu cynulleidfaoedd ar draws Cymru, America a'r byd gyda'i dawn ar y delyn.

Yn ymuno â Nia Roberts a Steffan Rhys Hughes fel rhan o dîm cyflwyno'r Ŵyl eleni mae Heledd Cynwal. Mae'n wyneb cyfarwydd ar ein sgrin ni yma yng Nghymru ac wedi hen arfer â chyflwyno mewn rhai o'n prif ddigwyddiadau ni, megis Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol. Ond mae'r Ŵyl Cerdd Dant yn her newydd a chyffrous iddi:

"Dyma'r tro cyntaf fyddai'n cyflwyno ar y rhaglen felly fydd hynny'n brofiad newydd ac yn brofiad dwi'n edrych ymlaen ato.

"Yn arbennig gan fod yna saib wedi bod achos ti'n gweld gyda digwyddiadau fel yr Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol, a'r Sioe Frenhinol, gymaint o ysfa sydd gan bobl i ddod nol at ei gilydd ac i ail-afael â phethau."

Felly, beth fydd ei rôl hi ar y diwrnod?

"Fyddai gefn llwyfan felly fyddai'n cael y cyfle i siarad a ystod eang o oedrannau – y rhai bach fydd yn dechrau cystadlu, tuag at y cystadleuwyr hŷn, yn ogystal â lleisiau lleol. A chael cyfle wedyn i siarad gyda pobl sydd yn cystadlu'n unigol, mewn grwpiau bach a corau a hefyd y cystadlaethau dawnsio a clocsio. Felly mae'n dipyn mwy na dim ond y cerdd dant!"

“Ti byth yn gwybod be ti’n mynd i gael gefn llwyfan ‘fyd!” Ychwanega Heledd, “Ac yn aml iawn ar ôl i bobl gystadlu maen nhw wedi ymlacio felly mae yna gymysgedd o adrenalin, y rhyddhad a’r ail-afael yma eleni. Felly – edrych ymlaen!”

Mae’r cymysgedd o gystadlaethau gwahanol yn yr ŵyl yma – y dawnsio, y canu, y llefaru a’r offerynwyr – yn ogystal â’r datblygiad sydd wedi bod o fewn y diwylliant yma yn sicr yn rhywbeth positif iawn i Heledd:

“Mae cerdd dant mor berthnasol i ni’r Cymry, mae’n gymaint o ran o'n traddodiad a’n hanes ni a dwi’n credu bod yna bethau gwych wedi’i wneud yn ddiweddar...Mae’n bwysig gwthio pethau ymlaen a’i wneud yn fwy hygyrch i bawb – wrth wthio rhywbeth ymlaen ti’n ei warchod a’i wneud yn berthnasol i heddiw a dwi’n credu bod hwnna yn wirioneddol bwysig.”

**Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi 2022**
**Dydd Sadwrn 12 Tachwedd 3.00pm, 6.00pm, 7.15pm a 9.30 tan y diwedd**
**Ar alw: S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media a Telesgop ar gyfer S4C**

03.11.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Heledd Cynwal joins the Cerdd Dant Festival presenting team

For the first time since 2019, Wales's national festival celebrating Cerdd Dant is back! This year, and for the third time in its history, the festival will be held in Montgomeryshire.

Bro Nansi Cerdd Dant Festival will be welcomed to Theatr Llwyn, Ysgol Llanfyllin, on Saturday 12 November. S4C will broadcast all the competitions - from the choirs to the clogs, the solos, and the instrumental performances and much more from 3.00 Saturday afternoon and during the evening from 7.15.

The festival was originally supposed to be held in 2020 but had to be postponed due to the pandemic.

The official name of this year's festival is the Bro Nansi Cerdd Dant Festival, in memory of the famous harpist Nansi Richards from Penybont Fawr who contributed so much to the local area and to Wales's culture. Nansi was quite a character and famous for entertaining audiences across Wales, America, and the world with her talent on the harp.

Joining Nia Roberts and Steffan Rhys Hughes as the festival's presenting team for the first time this year is Heledd Cynwal. She's a familiar face on our screens here in Wales and is used to presenting at some of our main events, such as the Urdd and National Eisteddfod. But the Cerdd Dant festival is a new and exciting challenge for her:

"This is the first time I'll be presenting during the event so it will be a new experience and one I'm looking forward to.

"Especially as there's been a break because you see it with events such as the Urdd and National Eisteddfod, and the Royal Welsh Agricultural Show, people have so much drive to get back together and to engage with things once again."

So, what will her role be on the day?

"I'll be backstage so will have the opportunity to talk to a wide range of ages - the little ones who are starting to compete, towards the older competitors, as well as local voices. And talk to people who compete individually, in small groups and choirs, and the dancing and clogging competitions. So, it's a lot more than just the cerdd dant!"

"You never know what you're going to get behind the stage!" Heledd adds, "And very often after people have competed, they're more relaxed and a mixture of adrenaline, relief and also the return to things this year. So – I'm looking forward!"

For Heledd, the mixture of different competitions at this festival - the dancing, the singing and the instrumental performances - as well as the development that has taken place within this culture is certainly something positive:

"Cerdd dant is so relevant to us in Wales, its such a part of our tradition and history and great things have been done recently...Its important to push things forward and make them more accessible to everyone - when you push something forward you protect it and make it relevant to today. I believe that's really important."

**Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi 2022**
**Saturday 12 November 3.00pm, 6.00pm, 7.15pm and 9.30 until end.**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondio Media and Telesgop production for S4C**